Troi tua sinema'r Commodore fu ein hanes fore Iau a threulio cyfnod o flaen y sgrîn fawr. Yna yn ôl i ginio Nadolig blasus iawn a baratowyd gan staff y gegin. Bore Gwener aeth dosbarthiadau 3 a 4 ar ymweliad â'r Amgueddfa yn Aberystwyth a threulio cyfnod diddorol iawn yno i gloi wythnos a thymor prysur.

Drwy amryfusedd gadawyd y swm terfynol o £222 a gasglwyd gan yr ysgol tuag at Gronfa Plant Mewn Angen allan o'r rhifyn olaf o'r TINCER.

Cynhaliwyd cyngerdd yr ysgol yn Neuadd y Penrhyn ar nos Fawrth, Rhagfyr 19. Perfformiwyd dramodig 'Teganau Siôn Corn' gan y babanod a thrwy gyfrwng darlleniadau, caneuon ac adroddiadau cyflwynodd y plant hŷn 'Dilyn y Seren' - y geiriau oll yn wreiddiol ac wedi eu cyfansoddi'n arbnenig ar gyfer y noson.

Treuliwyd nos Fercher yn canu carolau o gwmpas y pentref a'r casgliad yn mynd tuag at Ysbyty Bronglais. Cafwyd noson braf, digon o hwyl a chroeso cynnes gan y pentrefwyr. Roedd y paned cawl ar ddiwedd y noson yn dderbyniol iawn a diolch i Mrs Glenys Howells a Mrs Ceri Williams am ei baratoi. Diolch i bawb a gyfrannodd a sicrhau bod yr ysbyty lleol yn gyfoethocach o £120.